

Arolwg Defnydd Iaith, 2013-15

Crynodeb o adborth defnyddwyr

I gael rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth hon cysylltwch â:

Glyn Jones
Prif Ystadegydd
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 6691
E-bost: dataiaithgymraeg@cymru.gsi.gov.uk

Dyfan Sion
Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil
Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT
Ffôn: 0845 6033221
E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru

I gael gwybodaeth dechnegol am sut y cynhaliwyd yr arolwg, cysylltwch â:

Martin Parry
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 0373
E-bost: dataiaithgymraeg@cymru.gsi.gov.uk

Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, 24 Chwefror 2016
© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Cefndir	2
3. Hyrwyddo canlyniadau'r arolwg.....	3
3.1. Cyhoeddiadau.....	3
3.2. Hyrwyddo'r canlyniadau	4
3.3. Defnyddio'r canlyniadau	5
3.4. Helpu eraill i ddadansoddi ein data	6
4. Adborth a gafwyd hyd yma.....	6
4.1. Adborth ffurfiol	6
4.1.1. Ymatebion	6
4.1.2. Gwelliannau a awgrymwyd	7
4.2. Adborth anffurfiol.....	8
4.2.1. Cyfarfodydd a chynadleddau	8
5. Ymateb i'r adborth a gafwyd.....	9
6. Atodiad	10

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r adborth a gafwyd ar y canlyniadau a gyhoeddwyd hyd yma o'r Arolwg Defnydd Iaith. Mae'n disgrifio'r canlynol: pa ganlyniadau rydym wedi'u cyhoeddi; sut y cawsant eu defnyddio; sut ydym wedi ymgysylltu â defnyddwyr mewnol ac allanol i gael adborth; a beth rydym wedi'i wneud i weithredu ar yr adborth a gafwyd. Nod yr adroddiad yw helpu i nodi unrhyw ddiffygion yn y modd rydym yn cyflwyno neu'n cyhoeddi ein hallbynnau, a nodi beth oedd yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr.

2. Cefndir

Cafodd Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 ei gomisiynu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn 2013. Cynhaliwyd yr arolwg dros ddwy flynedd rhwng 2013 a 2015.

Roedd yn elfen ychwanegol o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Gofynnwyd i'r rheini a ddewiswyd ar hap i gymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol fynd ati hefyd i nodi pob aelod ar eu haelwyd a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Cafodd pob siaradwr Cymraeg gopi o holiadur yr Arolwg Defnydd Iaith i'w lenwi eu hunain a'i ddychwelyd drwy'r post.

Casglodd yr arolwg wybodaeth gan 7,175 o oedolion a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg er mwyn gweld pa mor dda y gallant siarad yr iaith, pa mor aml, ble, pryd, ac â phwy.

Roedd cwestiynau yn yr holiaduron i oedolion a phlant ynghylch y canlynol:

- deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg;
- gallu i siarad Cymraeg (o rugl i allu dweud ychydig eiriau yn unig);
- ble y dysgwyd y Gymraeg;
- pa iaith a ddefnyddir mewn amryw o sefyllfaoedd bob dydd;
- pa mor aml y defnyddir y Gymraeg;
- pa iaith a ddefnyddir i anfon negeseuon digidol a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol;
- mynd i ddigwyddiad diwylliannol a chwaraeon a gynhaliwyd yn Gymraeg.

Roedd cwestiynau ychwanegol yn yr holiadur i oedolion ynghylch:

- gallu rhieni i siarad Cymraeg;
- ym mha iaith y cynhaliwyd y sgwrs fwyaf diweddar (y tu allan i'r teulu);
- y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg;
- iaith addysg ar gamau amrywiol;
- defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus;
- ai'r Gymraeg neu'r Saesneg y mae siaradwyr yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio;
- cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac agwedd y cyflogwr at yr iaith.

Roedd cwestiynau ychwanegol yn yr holiadur i blant (3 i 15 oed) ynghylch:

- gallu aelodau o'r teulu i siarad Cymraeg;
- ym mha iaith yr addysgir pynciau yn yr ysgol;
- ai'r person ifanc neu'r rhiant a lenwodd yr holiadur.

3. Hyrwyddo canlyniadau'r arolwg

3.1. Cyhoeddiadau

Cafodd canlyniadau blwyddyn gyntaf yr arolwg eu cyhoeddi mewn adroddiad interim ar 26 Ionawr 2015, yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-14: Arolwg Defnydd Iaith](#). Cafodd canlyniadau llawn yr arolwg eu cyhoeddi ar 26 Tachwedd 2015 yn [Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15](#). Ochr yn ochr â'r adroddiadau hyn, cyhoeddwyd adroddiadau technegol ac ansawdd ynghyd â ffeithlun yn crynhoi detholiad o brif ganfyddiadau'r arolwg.

Roedd y ddau adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o brif bynciau'r arolwg, sef pa mor dda y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith, pa mor aml, ble, pryd, ac â phwy. Er bod y ddau'n cymharu'r canfyddiadau ag Arolwg Defnydd Iaith 2004-06 lle'n bosibl, mae *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15* hefyd yn cynnwys dadansoddiadau ar lefel awdurdodau lleol.

I ategu'r adroddiadau hyn, cyhoeddwyd cyfres o dablau ar wefan [StatsCymru](#) a oedd yn cyflwyno'r canlyniadau'n fanylach. Cafodd y tablau eu grwpio'n pedair cyfres o dablau ar:

- Gallu yn yr iaith
- Addysg
- Yr iaith yn y gweithle
- Defnyddio'r iaith.

Ar gyfer pob un o'r pedair cyfres, cyhoeddwyd tua 20-70 o dablau manwl o ganlyniadau. Dadansoddwyd y rhan fwyaf o'r canlyniadau yn ôl oedran, awdurdod lleol a rhuglder. Rhoddwyd cod lliw i'r canlyniadau yn y tablau er mwyn dangos pa mor gadarn oeddent. Yn ogystal, cyflwynwyd cyfyngau hyder ar gyfer y canlyniadau er mwyn dangos maint y cyfeiriornad ar gyfer pob canlyniad a helpu defnyddwyr i ddeall a oedd gwahaniaethau rhwng grwpiau o bwys yn ystadegol. Ceir isod enghraifft o'r tablau hyn.

Tabl 1: Iaith roedd pobl yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio

	%	CH Isaf	CH Uchaf
C14 Pa iaith ydych chi'n teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio?			
Cymraeg	21	20	22
Saesneg	52	50	54
Yr un mor gartrefol yn y ddwy iaith	26	25	28
Arall	0	0	1

Maint y sampl: 5,600

Fersiwn: 1

Cyhoeddwyd: Tachwedd 2015

Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith, 2013-15

Nodiadau:

Gofynnwyd y cwestiwn hwn i oedolion yn unig.

Allwedd:

	Amcangyfrif cywir
	Amcangyfrif gweddol gywir
	Amcangyfrif derbyniol
	Nid yw'r amcangyfrif yn ddibynadwy
-	Hepgorir y gwerth oherwydd bod maint y gell yn fach

3.2. Hyrwyddo'r canlyniadau

I roi cyhoeddusrwydd i ganlyniadau'r arolwg a sicrhau bod newyddiadurwyr yn gallu adrodd ar y canlyniadau'n gywir, cynhaliwyd cyfarfod briffio i'r wasg ddydd Iau 29 Ionawr 2015 (ar gyfer yr adroddiad interim) a dydd Iau 26 Tachwedd 2015 (ar gyfer yr adroddiad llawn) i hysbysu'r wasg am ganlyniadau'r arolwg.

Yn dilyn y cyfarfodydd hynny, rhoddwyd sylw i'r canlyniadau ar y teledu (BBC Wales Today ac S4C) ac ar y radio (BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales), ac ar ffynonellau ar-lein eraill fel yr isod.



Number of fluent Welsh speakers in Cardiff rises by 7,000


26 November 2015 Last updated at 20:50 GMT

There are more fluent Welsh speakers in Cardiff than there were 10 years ago - with the number in the capital having risen by 7,000.

However, in the traditional heartlands of Anglesey, Carmarthenshire, Ceredigion and Gwynedd, there has been a reduction in those fully competent.



Yn ogystal â'r cyfarfodydd briffio i'r wasg, anfonodd Llywodraeth Cymru e-bost at bawb â diddordeb a rhanddeiliaid allanol i'w hysbysu am y canlyniadau a ryddhawyd. Gwnaeth hefyd drydar am ganlyniadau'r arolwg o'r cyfrifon Twitter @statisticswales ac @ystadegaucymru a chynnwys y ffeithlun canlynol. Yn ogystal, gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg drydar am ganlyniadau penodol yn ddwyieithog drwy'r cyfrif @ComyGymraeg.



Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad interim ym mis Ionawr 2015, cyflwynwyd canlyniadau'r arolwg i'r cynulleidfaoedd canlynol.

- Cyngor Partneriaeth y Gymraeg Prif Weinidog Cymru - panel sy'n gyfrifol am roi cyngor a sylwadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â strategaeth y Gymraeg.
- Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg - panel sy'n gyfrifol am gynghori'r Comisiynydd ar ei swyddogaethau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru - cyfarfod rhwng dadansoddwyr o awdurdodau lleol, cyrff ieuchyd, awdurdodau tân a heddlu a mudiadau gwirfoddol. Ceir copïau o'r cyflwyniad a chofnodion y drafodaeth yn y cyfarfod ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).
- Mentrau Iaith - cyfarfod rhwng cynrychiolwyr o'r Mentrau Iaith, sy'n sefydliadau cymunedol sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws Cymru.
- Cyngor Cynulleidfa BBC Cymru - Cyngor sy'n craffu ar wasanaethau'r BBC ar ran cynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru.
- Yr Eisteddfod Genedlaethol - gwnaed cyflwyniad ym *Mhabell y Cymdeithasau* yn yr Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau 2015. Cafodd y cyflwyniad ei hyrwyddo a'i chofnodi drwy gyfrifon Twitter Llywodraeth Cymru a [Chomisiynydd y Gymraeg](#). Cafwyd rhywfaint o sylw yn y wasg hefyd o ganlyniad i'r cyflwyniad, gan gynnwys ar BBC Radio Cymru.

3.3. Defnyddio'r canlyniadau

Yn ôl yr adborth a gafwyd mae canlyniadau'r arolwg wedi'u defnyddio, neu fe fyddant yn cael eu defnyddio, gan amrywiaeth eang o ddefnyddwyr at ddibenion amrywiol. Nid dim ond sefydliadau sydd â rôl benodol o ran hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg sy'n defnyddio'r data, ond sefydliadau sydd â chylch gwaith ehangach hefyd. Dyma rai enghreifftiau o'r modd y defnyddir yr ystadegau:

- i ddatblygu, monitro a gwerthuso polisïau megis polisïau cynllunio lleol;
- fel gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer cynllunio gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar gael yn adlewyrchu proffil ieithyddol ardaloedd penodol;
- i ddeall proffil ieithyddol-gymdeithasol Cymru fel bod modd gwneud mwy o ymchwil i sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru;
- i adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru yn y wasg.

3.4. Helpu eraill i ddadansoddi ein data

Yn ogystal â chyhoeddi'r prif ganfyddiadau ar wefan StatsCymru, bydd setiau data'r arolwg ar gael ar wefan Archif Data'r Deyrnas Unedig o fis Mawrth 2016 ymlaen. Bydd catalog newidynnau'n cael ei gyhoeddi i roi trosolwg i ddefnyddwyr o strwythur y setiau data. Bydd canllaw hefyd ar gael i roi rhywfaint o wybodaeth gefndir i ddarpar ddefnyddwyr ar yr arolwg a methodoleg yr arolwg, a disgrifiad o'r data sydd ar gael ac enghreifftiau o gystrawen rhaglennu SPSS a Stata.

4. Adborth a gafwyd hyd yma

Rydym wedi ceisio adborth yn ffurfiol ac yn anffurfiol ers i'r adroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r adborth, a'r adborth a gafwyd hyd yma, wedi'u crynhoi isod.

4.1. Adborth ffurfiol

Rhwng adegau cyhoeddi'r adroddiad interim ym mis Ionawr 2015 a'r adroddiad llawn ym mis Tachwedd 2015, anfonwyd arolwg ar-lein (gweler yr Atodiad) at randdeiliaid yn Gymraeg a Saesneg drwy lwyfan arolygon ar-lein SurveyMonkey. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys unigolion neu sefydliadau allanol a oedd â diddordeb mewn ystadegau a/neu ymchwil ar y Gymraeg. Cafwyd naw ymateb i'r arolwg Cymraeg a phedwar ymateb i'r arolwg Saesneg.

Yn ogystal, dosbarthwyd copi papur o'r arolwg ar-lein i'r rheini a oedd yn bresennol yn y cyflwyniad yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cafwyd chwe ymateb i'r arolwg Cymraeg, ac un ymateb i'r arolwg Saesneg.

4.1.1. Ymatebion

- Roedd 11 o'r 20 ymatebydd yn gweithio yn y sector cyhoeddus; 4 yn gweithio yn y sector preifat; 3 wedi ymateb fel unigolion; 1 ymatebydd yn gweithio yn y sector gwirfoddol ac 1 arall yn gweithio mewn sefydliad 'arall'. Nid oedd unrhyw un o'r ymatebion oddi wrth swyddogion sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru neu i Gomisiynydd y Gymraeg.
- Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor bwysig oedd data'r Arolwg Defnydd Iaith iddynt. Dywedodd pawb ond un fod y data naill ai'n bwysig iawn neu'n bwysig iddynt (dywedodd 13 'pwysig iawn', a dywedodd 6 'pwysig').

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd pa mor ddefnyddiol oedd y data iddynt. Dywedodd pawb ond dau fod y data yn ddefnyddiol iddynt (dywedodd 13 'defnyddiol iawn', a dywedodd 5 'defnyddiol').
- Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr am y defnydd y maent yn ei wneud o'r Arolwg Defnydd Iaith, neu'n bwriadu ei wneud ohono. Roedd rhai o'r enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys defnyddio'r Arolwg i gynllunio a darparu gwasanaethau, i ddatblygu polisïau, fel gwybodaeth gyd-destunol, at ddibenion ymchwil ac at ddibenion gwleidyddol.
- Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd pa bynciau yn yr Arolwg Defnydd Iaith oedd yn fwyaf defnyddiol ac yn lleiaf defnyddiol iddynt. Dywedodd y rhan fwyaf mai'r wybodaeth yn ymwneud â'r defnydd o'r iaith oedd yn fwyaf defnyddiol, yn enwedig grwpiau oedran ieuengach, a hefyd gwybodaeth yn ymwneud â rhuglder a chymariaethau ag arolygon blaenorol. Ymhlith rhai o'r pynciau a oedd yn lleiaf defnyddiol ym marn yr ymatebwyr oedd ym mha iaith y cynhaliwyd y sgwrs fwyaf diweddar a rhuglder hunan-gofnodedig (dywedwyd bod hyn ddim wastad yn adlewyrchiad cywir o allu unigolyn yn y Gymraeg). Dywedodd ymatebwyr eraill fod yr wybodaeth yn ymwneud â phobl hŷn yn llai defnyddiol, ynghyd â gofyn i siaradwyr Cymraeg a ydynt ond yn defnyddio'r Gymraeg yn unig mewn sefyllfaoedd lle byddai gofyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel arfer.
- Gofynnwyd hefyd pa mor aml y dylid casglu gwybodaeth am y defnydd o'r Gymraeg. Dywedodd saith ymatebydd y dylid casglu gwybodaeth o'r fath bob blwyddyn neu ddwy flynedd; dywedodd ddeg ymatebydd y dylid ei chasglu bob tair i bum mlynedd; a dywedodd tri y dylid ei chasglu bob chwech i ddeg mlynedd.

4.1.2. Gwelliannau a awgrymwyd

Cafwyd nifer o awgrymiadau gan randdeiliaid ar ddadansoddiadau ychwanegol y byddent wedi hoffi eu gweld yn yr adroddiad llawn ym mis Tachwedd 2015, ynghyd â'r pynciau yr hoffent gael rhagor o wybodaeth amdanynt yn arolygon y dyfodol.

- Roedd rhai defnyddwyr yn dymuno i ganlyniadau'r arolwg gael eu dadansoddi yn ôl awdurdod lleol.
- Roedd un defnyddiwr am weld dadansoddiadau pellach yn ôl oedran a rhuglder, a dywedodd un arall fod y dadansoddiad eisoes yn rhy fanwl.
- Gofynnodd un defnyddiwr beth oedd maint y sampl ar gyfer pob amcangyfrif.
- Gofynnodd rai defnyddwyr am wybodaeth bellach yn arolygon y dyfodol am ble y dysgir y Gymraeg. Roedd un person eisiau gwybod faint o oedolion sy'n dysgu Cymraeg drwy gwrs Cymraeg i Oedolion.
- Roedd un defnyddiwr eisiau gwybodaeth ansoddol i ategu data'r arolwg, yn benodol ar y ffactorau sy'n arwain at allu i ddefnyddio'r Gymraeg yn llwyddiannus.
- Yn ogystal, roedd rhai defnyddwyr yn dymuno i wybodaeth gael ei chasglu ynghylch agweddau pobl at y Gymraeg a hyder i siarad Cymraeg. Gofynnodd defnyddwyr eraill am wybodaeth yn ymwneud â throsglwyddo'r iaith rhwng cenedlaethau.

4.2. Adborth anffurfiol

4.2.1. Cyfarfodydd a chynadleddau

Aeth Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i nifer o gyfarfodydd a seminarau - ceir rhestr yn adran 3.2 - i gyflwyno canlyniadau arolwg 2013-14. Ar ddiwedd pob cyflwyniad, gofynnwyd i'r gynulleidfa am eu hadborth.

- Un thema gyffredin a gododd yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd a seminarau oedd yr angen i ganlyniadau'r arolwg gael eu dadansoddi yn ôl awdurdod lleol er mwyn iddynt fod yn fwy defnyddiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau Cymraeg.
- Thema gyffredin arall oedd yr angen i gymryd gofal wrth ddadansoddi canlyniadau'r arolwg oherwydd natur oddrychol rhuglder hunan-gofnodedig, yn enwedig ar gyfer y siaradwyr Cymraeg ieuengaf gan nad yw rhieni efallai'n nodi gallu eu plant yn y Gymraeg a'u defnydd o'r iaith yn gywir.
- Gan adlewyrchu'r adborth o'r arolwg ar-lein, roedd rhai defnyddwyr yn dymuno gweld gwybodaeth fwy ansoddol megis pa ffactorau a fyddai'n annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith. Awgrymwyd gwaith ymchwil pellach hefyd megis ymchwil i ystyried y rhesymau pam fod rhai siaradwyr Cymraeg a oedd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus yn methu â gwneud hynny, a pham bod pobl ifanc yn llai tebygol o siarad Cymraeg gyda ffrindiau nag yn yr ysgol.
- Yn rhai o'r cyfarfodydd a'r seminarau, cafwyd trafodaethau ynghylch pwysigrwydd cyflwyno'r niferoedd yn ogystal â'r canrannau yn yr adroddiad.
- Mewn un cyfarfod, awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol ystyried y defnydd o'r Gymraeg yn ôl man geni/magwraeth a hefyd ystyried grwpiau oedran mwy manwl, os yw maint y samplau'n caniatáu hynny, er mwyn gweld a oes amrywiadau o fewn grwpiau.
- Mewn cyfarfod arall, trafodwyd canfyddiadau'r arolwg nad yw siaradwyr Cymraeg 16-29 oed yn defnyddio'r Gymraeg gymaint â'r siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau eraill, a'r rhesymau posibl am hyn.
- Gofynnodd defnyddwyr eraill am barhad yr Arolwg Defnydd Iaith, gan nodi pa mor bwysig ydyw fel sylfaen dystiolaeth ar iechyd y Gymraeg.

Yn ogystal â chyflwyno canlyniadau'r adroddiad interim mewn cyfarfodydd a seminarau amrywiol, cafodd yr adroddiad ei adolygu gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru yn ystod hyfforddiant ar adolygu gan gymheiriaid. Er nad oeddent yn defnyddio'r canlyniadau, cafwyd adborth gan yr adolygwyr hyn er mwyn gwella ansawdd y sylwebaeth ystadegol. Roedd yr adborth a gafwyd yn cynnwys yr angen i ddarparu cyd-destun ychwanegol, ailstrwythuro'r adroddiad fel bod y prif ganfyddiadau'n gliriach, ystyried defnyddio amrywiaeth o siartiau a gwella'r modd y dehonglir y canlyniadau.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg hefyd gydweithio'n agos â Thîm Arfer Da Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wrth lunio'r adroddiad terfynol. Darparodd y Tîm Arfer Da gyngor a chyfarwyddyd ar sut i gyflwyno data'n effeithiol gan roi adborth ar ddrafftiau gwahanol o'r adroddiad terfynol.

5. Ymateb i'r adborth a gafwyd

Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd ar yr adroddiad interim, cymerwyd y camau canlynol mewn pryd ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad llawn ym mis Tachwedd 2015.

- Cafodd llawer o'r data eu dadansoddi ar lefel awdurdod lleol, lle'r oedd maint y samplau'n caniatáu hynny. Cafodd mapiau a siartiau eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol a chyhoeddwyd tablau ar lefel awdurdod lleol ar wefan StatsCymru.
- Cafodd cyd-destun ychwanegol ei gynnwys gyda chanlyniadau'r arolwg, gan gynnwys y cyd-destun polisi ac eglurhad byr ar gyfer pob pwnc o'i berthnasedd i'r iaith Gymraeg.
- Cafodd y sylwebaeth ystadegol a'r defnydd o siartiau, mapiau a thablau eu gwella er mwyn bod yn fwy dehongliadol ac yn llai mecanyddol wrth dynnu sylw at batrymau a thueddiadau yn y data.
- Yn ogystal, cafodd adran fer ei chynnwys yn yr adroddiad llawn i hysbysu defnyddwyr am natur ansoddol rhuglder hunan-nodedig a defnydd iaith, yn enwedig ar gyfer siaradwyr Cymraeg ieuengach (gan fod yr wybodaeth honno'n cael ei hadrodd gan rieni ac efallai nad yw'n gywir).

6. Atodiad

Arolwg i gael adborth gan ddefnyddwyr ar yr Arolwg Defnydd Iaith

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 'Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-14: Arolwg Defnydd Iaith' ar 29 Ionawr 2015.

Hoffem glywed eich barn am y cyhoeddiad er mwyn llywio'r adroddiad nesaf, sydd i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2015. Hoffem hefyd glywed eich barn am unrhyw waith ymchwil yn y maes hwn yn y dyfodol.

1. I ba fath o sefydliad ydych chi'n gweithio?
 - a. Llywodraeth Cymru
 - b. Comisiynydd y Gymraeg
 - c. Sector cyhoeddus
 - d. Sector gwirfoddol
 - e. Sector preifat
 - f. Unigolyn
 - g. Arall
2. Wrth ystyried y wybodaeth a'r data a ddarperir trwy Arolwg Defnydd Iaith 2013-14, pa mor bwysig yw'r data hwn i chi neu eich sefydliad?
 - a. Pwysig iawn
 - b. Pwysig
 - c. Ddim yn bwysig iawn
 - d. Ddim yn bwysig o gwbl
3. Pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth a'r data a ddarperir trwy Arolwg Defnydd Iaith 2013-14 i chi neu i'ch sefydliad?
 - a. Defnyddiol iawn
 - b. Defnyddiol
 - c. Ddim yn ddefnyddiol iawn
 - d. Ddim yn ddefnyddiol o gwbl
4. Pa ddefnydd ydych chi neu eich sefydliad yn ei wneud, neu'n bwriadu ei wneud, o'r Arolwg Defnydd Iaith?
5. Os ydych chi neu'ch sefydliad wedi defnyddio canlyniadau'r Arolwg, pa adrannau neu bynciau oedd fwyaf defnyddiol a pham?

6. Os ydych chi neu'ch sefydliad wedi defnyddio canlyniadau'r Arolwg, pa adrannau neu bynciau oedd yn lleiaf defnyddiol a pham?
7. Oes dadansoddiadau eraill yr hoffech eu gweld yn adroddiad Arolwg Defnydd Iaith 2013-15, yn ychwanegol i'r hyn sydd eisoes yn adroddiad 2013-14?
8. Pa mor aml, yn eich tyb chi, dylid casglu gwybodaeth ar ddefnydd yr iaith Gymraeg?
 - a. Bob un i ddwy flynedd
 - b. Bob tair i bum mlynedd
 - c. Bob chwech i ddeng mlynedd
 - d. Llai aml
9. A oes unrhyw gwestiynau neu bynciau eraill, sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg, ddylai yn eich barn chi gael eu cynnwys mewn Arolwg Defnydd Iaith yn y dyfodol?
10. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch yr Arolwg Defnydd Iaith?